

## Pwysigrwydd hyfforddiant a gwybodaeth Diogelu

16 Tachwedd 2021

### **Pwysigrwydd hyfforddiant a gwybodaeth Diogelu**

Yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu (15-19 Tachwedd 2021), rydym yn galw ar ein cyd-Aelodau o'r Senedd i fanteisio ar gyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant diogelu.

Fel Pwyllgor, un o'r penderfyniadau cyntaf a wnaethom oedd cwblhau cwrs cyflwyniad i Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru. Fe wnaethom flaenoriaethu hyn oherwydd roeddem am sicrhau, yn ystod ein gwaith Pwyllgor, neu yn ein gwaith ehangach fel Aelodau unigol, bod gennym y wybodaeth a'r hyder i gymryd y camau cywir, pe byddem yn wynebu pryderon o ran diogelu.

Cwblhaodd holl Aelodau'r Pwyllgor yr hyfforddiant hwn. Roedd yn hynod ddefnyddiol ac addysgiadol i bob un ohonom. Er bod rhai ohonom wedi cwblhau hyfforddiant diogelu mewn rolau blaenorol, roedd gwneud hyfforddiant a oedd yn edrych ar y cyd-destun penodol, sydd yn aml yn unigryw, o sut y gallai materion diogelu godi yn ein rolau fel AS yn bwysig. Mae gan wleidyddion etholedig fel ni rôl unigryw sydd yn freintiedig yn aml yn y gymdeithas. Rydym yn dod i gyswllt â llawer o blant a phobl ifanc, a dylem i gyd fod â'r wybodaeth i wybod beth i'w wneud os oes gennym bryderon o ran diogelu yn ystod y cyswllt hwnnw.

Rydym bellach yn teimlo'n fwy parod i wneud hyn, a byddem yn annog ein holl gyd-Aelodau i chwilio am gyfleoedd hyfforddi o'r fath.

### **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**

Jayne Bryant AS (Cadeirydd)

James Evans AS

Siân Gwenllian AS

Laura Anne Jones AS

Ken Skates AS

Buffy Williams